## .....gwenyn

Mae tri math o wenyn yn y bôn sef: Gwenyn Mêl, Cacwn a Gwenyn Bychain.

Ni fydd gwenyn mêl yn cysgu'r gaeaf er eu bod yn arafu ac yn mynd yn swrth. Byddant yn cynhyrchu mêl ac yn ei storio mewn diliau cwyr gan ddefnyddio'r un cwch o flwyddyn i flwyddyn. Gwenyn ychydig yn llai o faint a llai lliwgar na chacwn yw gwenyn mêl a byddant yn byw mewn nythod mwy.

Pryfed mwy sy'n wahanol i ymwelwyr eraill yr ardd yw'r cacwn. Y frenhines yn unig a fydd yn cysgu ac yn goroesi'r gaeaf. Er bod cacwn yn cynhyrchu rhywfaint o fêl, ni fydd fyth mwy na llond llwy de ohono ar unrhyw adeg benodol a bydd hwnnw'n cael ei storio mewn cell arbennig debyg i gwpan. Er bod cacwn fel arfer yn defnyddio eu nyth am un tymor yn unig, fe'ch gwelwch weithiau'n dychwelyd am ail dymor.

Y Gwenyn Bychain yw gwenyn cyntaf y gwanwyn fel arfer. Ni fyddant yn ein pigo am nad yw eu colynnau'n ddigon cadarn i dyllu croen pobl. Byddant yn nythu drwy dwrio yn y ddaear.

## .....ffeithiau am wedyn

Ni fydd gwenyn fel arfer yn ymosod ar bobl onibai eu bod mewn perygl o gael eu lladd. Os daw gwenynen yn agos atat, peidiwch â chwifio'ch breichiau o gwmpas yn wyllt. Sefwch yn llonydd, a phan ddaw'n amlwg i'r wenynen nad blodyn ydych chi, bydd yn hedfan i ffwrdd. Yn annhebyg i Wenynen Fêl ni fydd Cacynen yn colli ei cholyn a marw wrth bigo. Serch hynny, ni fydd Cacwn Segur (sef y cacwn gwrywaidd llai o faint) yn pigo o gwbl. Pan fydd y rheini'n deor yng nghanol yr haf, bydd pobl sy'n poeni am bryfed yn aml yn cael braw o weld bod cymaint o wenyn wedi ymddangos yn sydyn.



02820 (3/04)

## .....gwasanaeth y cyngor

Ni fyddwn yn argymell trin gwenyn am eu bod yn greaduriaid diddrwg nad ydynt yn bla nac yn fygythiad. Yn wir, mae cacwn yn cael eu gwarchod o dan y gyfraith am fod eu nifer yn disgyn o flwyddyn i flwyddyn.

Byddwn yn dibynnu ar y gwenyn i beillio ein planhigion. Ystyriwch o ddifrif pa mor fuddiol ydynt i'n gerddi, i'n hamgylchedd a'n bywydau. Mae 254 o wahanol rywogaethau o wenyn gwyllt (yn wenyn unigol ac yn gacwn) ym Mhrydain, a chafodd 25% o'r rheini eu rhestru fel rhywogaethau sydd mewn perygl o ddiflannu. Mae'r rhan fwyaf o'r bwyd y byddwn yn ei brynu ar gael yn unig am i wenyn beillio'r cnydau yn ein caeau – petai'r gwenyn yn rhoi'r gorau i weithio byddwn ni i gyd yn newynu!

Os oes gwir angen cymorth arnoch i drin gwenyn, bydd ein Swyddogion Difa Pla'n galw heibio i weld a oes unrhyw berygl i iechyd ac os felly byddant un ai'n eu trin neu'n symud y nyth yn ôl y gofyn. Cofiwch y bydd yn rhaid i chi dalu am y gwasanaeth hwn.

Taflenni eraill yn y gyfres hon:

1 Chwain
2 Llygod Ffrengig
3 Llygod
4 Morgrug
5 Cacwn Meirch
6 Gwenyn
7 Mosgitos
8 Colomennod
9 Gwylanod
10 Gwiwerod
11 Cadnoid
12 Llau Llyfrau (Psocids)
13 Chwilod Duon
14 Pŷcs
15 Chwilod Carpedi
16 Clêr


Ein rhif cysylltu:

**01446 709105**

Ein cyfeiriad:

Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoli,
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU

ebost: regserv@valeofglamorgan.gov.uk

www.valeofglamorgan.gov.uk



VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

...gair o gyngor oddi wrth Wasanaeth Difa Pla Cyngor Bro Morgannwg...

# bees!

an advice note from your Pest Control Service

No. 6 in the series



VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

www.valeofglamorgan.gov.uk

## .....bees

There are three main types of bees: Honeybees, Bumblebees and Minor Bees.

Honeybees do not hibernate in the winter although they slow down and become inactive. They produce honey and store it in a wax comb using the same hive from one year to the next. They are slightly smaller and not as brightly coloured as bumblebees, living in larger colonies.

Bumblebees are larger insects and distinctive garden visitors. Only the queen hibernates and survives the winter. Bumblebees do make a small amount of honey (no more than a table-spoon at any time), which they store in a special cup like cell. They normally only use their nest for one season but do occasionally return to the same nest the following year.

Minor Bees are normally the first bee to be seen in Spring. They do not sting as their stinger cannot pierce human skin. They nest by burrowing into the ground.

## .....facts about bees

Generally bees will not attack humans unless their life is under threat. If a bee comes near you do not wave your arms around wildly. Stand quietly and once the bee senses that you are not a flower they will move away. Bumblebees do not lose their sting and die if they use it, where as Honeybees do. However, Drone Bumblebees (smaller male bees) do not sting at all. When the Drone Bumblebees hatch in mid summer the sudden increase in bee numbers can frighten people who are nervous about insects.



02820 (3/04)

## .....services the council provides

We do not recommend treatment as bees are harmless and are not a pest or threat. Bumblebees are in fact protected under the law and are declining in numbers.

We are dependant upon bees for pollinating our plants. Please consider the beneficial effect they have on our gardens, environment and lives. There are 254 species of wild bee (solitary and bumble bees) in the UK, 25% are officially listed as endangered species. The great majority of the food we buy is there only because bees have pollinated the crops in our fields - without the work of the bee we would starve!

If it is absolutely necessary our professional Pest Control Officers will call to see if they are a health risk and if so treat or remove the colony accordingly. There is a charge for this service.

Other leaflets available in this series:

| | | |
|---|---|---|
| 1 Fleas | 7 Mosquitos | 13 Cockroaches |
| 2 Rats | 8 Pigeons | 14 Bedbugs |
| 3 Mice | 9 Seagulls | 15 Carpet Beetles |
| 4 Ants | 10 Squirrels | 16 Flies |
| 5 Wasps | 11 Foxes | |
| 6 Bees | 12 Booklice (Psocids) | |

Our contact number:

**01446 709105**

Our address:

Legal & Regulatory Services,
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU

Our email: regserv@valeofglamorgan.gov.uk

www.valeofglamorgan.gov.uk


VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

...an advice note from the Pest Control Service at the Vale of Glamorgan Council...

Gair o gyngor oddi wrth eich Gwasanaeth Difa Pla

Rhif 6 yn y gyfres

# gwenyn!



VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

www.valeofglamorgan.gov.uk